



HAVE
YOUR SAY
DWEUD
EICH
DWEUD

DWEUD EICH DWEUD!

ar foderneiddio Gofal Preswyl i bobl hŷn

Mae'r **Ymgynghoriad yn dechrau ar: 14 IONAWR 2019**
ac yn **dod i ben am 5pm ar: 8 EBRILL 2019**

Am ragor o wybodaeth ewch i www.rctcbc.gov.uk/ymgynggori
– bydd modd i chi gael manylion am y cynigion a llenwi holiadur.
Os oes angen copi caled o'r holiadur arnoch chi, cysylltwch â ni:

 **01443 425014**

 **gofalpreswyl@rctcbc.gov.uk**

 **RHADBOST RSBU-HJUK-LSSS**, Carfan Materion Ymchwil ac
Ymgynghori, Y Pafiliynau, Cwm Clydach, CF40 2XX



2019

Mae'r llyfryn yma ar gael mewn iaith a diwyg gwahanol.
Fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi.

Os oes angen ein gwasanaeth eirioli arnoch chi, rhowch wybod i ni



RHONDDA CYNON TAF

Cyflwyniad

Ym mis Tachwedd 2018 cafodd cynigion ar gyfer moderneiddio gwasanaethau gofal preswyl eu hystyried gan Gabinet y Cyngor. Cytunwyd i gynnal ymgynghoriad 12 wythnos o hyd ar y cynnig mae'r Cabinet yn ei ffafrio.

Mae manylion y cynigion ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl i'w gweld yn y llyfryn yma. Mae'r Cyngor yn eich gwahodd chi i ddweud eich dweud ar y cynigion eraill, yn ogystal â chyflwyno'ch sylwadau ar y cynnig y mae'r Cabinet yn ei ffafrio. Cewch chi nodi eich argymhellion eich hunain ar gyfer y newidiadau arfaethedig hefyd.

Manteisiwch ar y cyfle yma i ddweud eich dweud.

Cefndir

Mae moderneiddio gofal cymdeithasol i oedolion yn flaenoriaeth allweddol i Gyngor Rhondda Cynon Taf, yn unol â chynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gyfer newid a gwella.

Mae pobl yn byw'n hirach ac mae'r hyn y mae pobl ei eisiau ac yn ei ddisgwyl o safbwynt gofal yn hwyrach yn eu hoes yn newid. Yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo lunio'r gwasanaethau y mae'n eu darparu yn fewnol mewn modd sy'n bodloni anghenion presennol ac yn y dyfodol.

Datblygodd y Cyngor strategaeth i foderneiddio dewisiadau llety ar gyfer pobl hŷn a darparu tai â gofal ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf. Cafodd y Strategaeth ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2016 ac roedd yn cynnwys ymrwymiad i adolygu'r farchnad ofal a'i hail-lunio er mwyn:

- Cynyddu'r dewis sydd ar gael i bobl sydd angen llety â gofal a chymorth; a
- Cyflwyno dewis arall ymarferol i bobl sy'n gallu parhau i fyw'n annibynnol gyda chymorth.

Er mwyn bodloni anghenion y boblogaeth, a bodloni'r disgwyl inni gynnig cartrefi modern o ansawdd uchel, roedden ni wedi cydnabod y dylen ni ymdrechu i ddarparu gwasanaethau atal, ymyrraeth gynnar, a gofal a chymorth mewn cymunedau lleol.

Mae modelau gwasanaeth ar gyfer darparu gofal i bobl hŷn yn esblygu gyda phwyslais ar gefnogi pobl hŷn i aros gartref yn hirach.

Mae'r dull yma yn cynnwys cynllun buddsoddi gwerth £50 miliwn i ddarparu gwelyau gofal ychwanegol ar draws Rhondda Cynon Taf ac i ddarparu opsiynau llety modern i fodloni anghenion a disgwyliadau newidiol y boblogaeth hŷn sy'n tyfu.

Serch hynny, bydd angen darparu gofal preswyl a gofal nyrsio arbenigol ar gyfer yr unigolion sydd angen y lefel yma o gymorth, er enghraifft pobl â dementia, yn rhan o'r ystod gyffredinol o gymorth sydd ei hangen i gefnogi anghenion ein cymuned.

Mae rhaid inni ddarparu gwasanaethau mewn modd gwahanol wrth inni annog rhagor o bobl i fod mor annibynnol a hunangynhaliol â phosibl. O ganlyniad bydd modd i'n gwasanaethau ganolbwyntio ar y rhai sydd wir eu hangen. Felly, rydyn ni wedi cynnal adolygiad o ofal preswyl i bobl hŷn.

Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r Cyngor yn darparu 322 o welyau ar draws 11 o gartrefi gofal (gan gynnwys tua 145 o welyau ar gyfer pobl â dementia). Ar y cyfan, mae nifer y lleoedd presennol yn parhau i fod yn uwch na'r galw ac mae'n annhebygol y bydd y galw am y cartrefi gofal preswyl yn cynyddu'n sylweddol yn y dyfodol agos.

Cafodd pob un o 11 cartref gofal preswyl y Cyngor ei adeiladu dros 30 mlynedd yn ôl, ar adeg pan oedd safonau a disgwyliadau yn sylweddol wahanol i heddiw. Mae oed yr adeiladau yma yn cyfyngu ar yr hyn y mae modd ei gyflawni o safbwynt lles ac urddas personol o fewn y cartrefi gofal presennol.

Fel Cyngor, yn 2019, mae gyda ni ddyletswydd i fyfyrion ar y model presennol yma a gofyn i ni ein hunain a yw e'n adlewyrchu anghenion a dyheadau ein poblogaeth gyfredol, a'r cenedlaethau i ddod hefyd.

Y Cynnig mae'r Cabinet yn ei ffafrio

Yn dilyn yr adolygiad o gartrefi gofal preswyl i bobl hŷn, cafodd tri chynnig eu llunio. Y cynnig roedd y Cabinet yn ei ffafrio ar gyfer ymgynghori oedd:

Cynnig 3: Model Cyflenwi Gwasanaeth Newydd Arfaethedig

Byddai'r Cyngor yn parhau i ddarparu cartrefi gofal preswyl sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal cymhleth a gofal seibiant. Byddai lefel y ddarpariaeth a fyddai'n parhau yn seiliedig ar bennu cyfran y farchnad a'r anghenion y byddai angen darparu ar eu cyfer yn ardaloedd daearyddol Rhondda, Cynon a Thaf.

Y gred yw y byddai hyn yn:

- Darparu dewis
- Amddiffyn rhag methiant y farchnad
- Cynnal ansawdd y gofal
- Cynnig darpariaeth arbenigol integredig

Byddai'r cynnig sy'n cael ei ffafrio yn gwella model cyflenwi gwasanaethau mewnol y Cyngor, gan ganolbwyntio'n fwy ar ofal cymhleth a gofal seibiant yn y dyfodol. Er mwyn cefnogi'r symudiad hwn, mae wedi'i gynnal y gallai comisiynu gofal preswyl a nyrsio safonol gael ei gefnogi gan y farchnad allanol. Byddai'r cynnig yma'n gweld y Cyngor yn buddsoddi ac yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth gwell i'r trigolion hynny sydd ag anghenion mwy cymhleth.

Cynigion eraill

Cynnig 1: Parhau â'r trefniadau presennol – Dim newid

Byddai lleiafswm o amharu ar y preswylwyr presennol.

Dydy'r cynnig yma ddim yn cael ei ffafrio oherwydd dydy parhau â gwasanaethau fel y maen nhw ddim yn bosibl. Mae hyn oherwydd pwysau demograffig ac ariannol, a blaenoriaethau strategol sy wedi'u nodi uchod.

Cynnig 2: Dadgomisiynu pob un o gartrefi gofal y Cyngor yn raddol yn rhan o raglen drawsnewid wedi'i chynllunio, yn unol â gweithredu rhaglen datblygu gofal ychwanegol y Cyngor a safle marchnad cartrefi gofal Cwm Taf.

Byddai rhaid i bob preswlydd yn 11 cartref gofal preswyl y Cyngor symud oherwydd byddai pob cartref yn cau. Serch hynny, wrth i'r gwasanaeth mewnol gael ei ddadgomisiynu byddai gofal ychwanegol yn cael ei roi ar waith, er mwyn sicrhau na fyddai bwlch o ran darparu gwasanaethau yn ystod y cyfnod o newid. Mae digon o leoedd gofal ychwanegol newydd a lleoedd gwag yn y sector cartrefi gofal preswyl annibynnol i gynorthwyo preswylwyr, a bodloni anghenion wedi'u hasesu a dewis, lle bo hynny'n briodol.

Dydy'r cynnig yma ddim yn cael ei ffafrio oherwydd bod y Cyngor yn dymuno cadw lefel o ddarpariaeth gofal preswyl, sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal cymhleth a gofal seibiant.

Mae rhagor o fanylion am y cynigion arfaethedig i'w gweld ar y wefan:
www.rctcbc.gov.uk/ymgynggori

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Rhaid pwysleisio does dim penderfyniad wedi'i wneud eto, heblaw am y penderfyniad i ymgynghori ar y mater yma. Mae'r ymgynghoriad yn para 12 wythnos, felly mae digon o amser i bobl ddweud eu dweud. Mae cefnogaeth ar gael i'r rheini sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol, a'u cynhalwyr, i sicrhau eu bod nhw'n cael cyfle i wybod beth yw'r cynigion a chael cyfle i wneud sylwadau amdanyn nhw. Bydd pob barn yn cael ei hystyried cyn i adroddiad gael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor i wneud penderfyniad terfynol.

HOLIADUR

Mae'r holiadur yma yn gofyn ichi feddwl am ddarpariaeth fewnol Gofal Preswyl Cyngor Rhondda Cynon Taf. Mae'n rhan o'r gwaith i gynllunio ar gyfer dyfodol y gofal hirdymor y mae'r Cyngor yn ei gomisiynu i bobl hŷn. Hoffen ni ymgynghori ar y cynigion arfaethedig sy wedi'u cyflwyno ar gyfer dyfodol darpariaeth fewnol y Cyngor.

Darllenwch y manylion llawn yn y pecyn gwybodaeth cyn llenwi'r holiadur.

Rhaid dychwelyd pob holiadur wedi'i lenwi erbyn 5pm ar 8 Ebrill 2019

Sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol

Sail gyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer prosesu eich gwybodaeth o dan y gyfraith diogelu data yw ei rwymedigaeth gyfreithiol i ymgynghori ar newidiadau i wasanaethau. Bydd ymatebion yn cael eu trin yn gyfrinachol a byddan nhw'n ymddangos yn ddienw yn yr adroddiad terfynol.

Am ragor o wybodaeth am sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth, edrychwch ar Hysbysiadau Preifatrwydd y Gwasanaeth Ymgynghori a'r Gwasanaeth Gofal Preswyl (Oedolion) a pholisi Diogelu Data'r Cyngor, neu cysylltwch â'r Garfan Ymgynghori – ymgyngghori@rctcbc.gov.uk

C1. Ydych chi'na:

- ☐ Preswilydd mewn cartref gofal preswyl
- ☐ Perthynas / Partner / Cyfaill i breswilydd yn un o gartrefi gofal preswyl y Cyngor
- ☐ Eiriolwr ar gyfer preswilydd yn un o gartrefi gofal preswyl y Cyngor
- ☐ Aelod o'r cyhoedd
- ☐ Aelod o staff
- ☐ Arall (*nodwch*):

C2. Ydy'ch barn chi'n ymwneud ag unrhyw gartref gofal preswyl yn arbennig?

- ☐ Parc Newydd, Tonysguboriau
- ☐ Tŷ Pentre, Y Pentre
- ☐ Tegfan, Aberdâr
- ☐ Troed-y-Rhiw, Aberpennar
- ☐ Ystrad Fechan, Treorci
- ☐ Bronllwyn, Y Gelli
- ☐ Cae Glas, Y Ddraenen Wen
- ☐ Cwrt Clydach, Treallaw
- ☐ Dan-y-Mynydd, Y Porth
- ☐ Ferndale House, Glynrhedynog
- ☐ Garth Olwg, Pentre'r Eglwys

Y Cynnig sy wedi'i Argymhell – Cynnig 3 (y cynnig sy'n cael ei ffafrio ar gyfer ymgynghori): Model Cyflenwi Gwasanaeth Newydd Arfaethedig

Byddai'r Cyngor yn parhau i ddarparu cartrefi gofal preswyl sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal cymhleth a gofal seibiant. Byddai lefel y ddarpariaeth a fyddai'n parhau yn seiliedig ar bennu cyfran y farchnad a'r anghenion y byddai angen darparu ar eu cyfer yn ardaloedd daearyddol Rhondda, Cynon a Thaf.

C3. Ydych chi'n cytuno â Chynnig 3?

Ydw (Cytuno) ☐

Nac Ydw (Anghytuno) ☐

Ddim yn Gwybod ☐

Rhowch unrhyw sylwadau ar gyfer yr ateb yma:

.....

.....

.....

.....

.....

C4. Sut byddai'r cynnig sy wedi'i argymhell yn effeithio arnoch chi neu'ch teulu?

.....

.....

.....

.....

.....

Cynigion eraill

Cynnig 1: Parhau â'r trefniadau presennol – Dim newid

C5. Ddylai hyn fod y cynnig i'w ffafrio, yn eich barn chi?

Dylai ☐

Na Ddylai ☐

Ddim yn Gwybod ☐

Rhowch unrhyw sylwadau ar gyfer yr ateb yma:

.....

.....

.....

.....

.....

Cynnig 2: Dadgomisiynu pob un o gartrefi gofal y Cyngor yn raddol yn rhan o raglen drawsnewid wedi'i chynllunio, yn unol â gweithredu rhaglen datblygu gofal ychwanegol y Cyngor a safle marchnad cartrefi gofal Cwm Taf.

Byddai rhaid i bob preswilydd yn 11 cartref gofal preswyl y Cyngor symud oherwydd byddai pob cartref yn cau. Serch hynny, wrth i'r gwasanaeth mewnol gael ei ddadgomisiynu byddai gofal ychwanegol yn cael ei roi ar waith, er mwyn sicrhau na fyddai bwlch o ran darparu gwasanaethau yn ystod y cyfnod o newid. Mae digon o leoedd gofal ychwanegol newydd a lleoedd gwag yn y sector cartrefi gofal preswyl annibynnol i gynorthwyo preswylwyr, a bodloni anghenion wedi'u hasesu a dewis, lle bo hynny'n briodol.

C6. Ddylai hyn fod y cynnig i'w ffafrio, yn eich barn chi?

Dylai ☐ **Na Ddylai** ☐ **Ddim yn Gwybod** ☐

Rhowch unrhyw sylwadau ar gyfer yr ateb yma:

.....

.....

.....

.....

.....

C7. Os oes gyda chi unrhyw sylwadau eraill hoffech chi i ni eu hystyried, neu gynigion/argymhellion eraill, nodwch nhw isod.

.....

.....

.....

.....

.....

C8. Rhyw.....

C9. Oedran.....

C10. Cod post

C11. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod nodweddion penodol gyda nhw. Mae'r cwestiwn hwn yn ddewisol. Am ragor o wybodaeth am sut rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth yma, edrychwch ar hysbysiad preifatrwydd 'Cydraddoldeb ac Amrywiaeth' ar wefan y Cyngor.

Sut byddai'r cynnig/cynigion yma yn effeithio arnoch chi o safbwynt y canlynol:

Rhywedd, Oedran, Ethnigrwydd, Anabledd, Rhywioldeb, Crefydd/Cred, Hunaniaeth o ran rhywedd, Perthynas, Beichiogrwydd, Dewis iaith.

.....

.....

.....

.....

.....

C12. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg ac o ganlyniad mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau'n effeithio ar y Gymraeg.

Rhowch wybod i ni:

- Sut byddai'r cynnig/cynigion, yn eich barn chi, yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i hyrwyddo (Cadarnhaol neu Negyddol), ac a yw'r cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd?
- Sut byddai modd estyn effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

.....

.....

.....

.....

.....

Os ydych chi'n **fodlon i ni gysylltu â chi** er mwyn trafod eich ymateb i'r holiadur yma, nodwch eich manylion cyswllt::

Enw:

E-bost/Rhif ffôn:

Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad yma.

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn prosesu'r wybodaeth rydych chi wedi'i darparu yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018. Mae'n bosibl y caiff yr wybodaeth ei defnyddio at ddibenion ystadegol, ond bydd unrhyw fanylion personol yn ddienw.

Cliciwch ar Cyflwyno/Submit i gwblhau'r holiadur ar-lein. Os ydych chi'n llenwi copi papur, anfonwch e i:

Rhadbost RSBU-HJUK-LSSS,

Carfan Materion Ymchwil ac Ymgynghori

Y Pafiliynau

Cwm Clydach

Tonypandy

CF40 2XX

Neu anfonwch eich barn gyffredinol aton ni drwy e-bost: **gofalpreswyl@rctcbc.gov.uk**